**LC391**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**The National Assembly for Wales**

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU DRAFFT**

**LEGISLATION COMMITTEE REPORT DRAFT**

**Rheoliadau Monitro BSE (Diwygio) (Cymru) 2001**

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Monitro BSE (Cymru) 2001 (OS 2001/2360) (Cy.197), er mwyn rhoi eu heffaith i'r rhwymedigaethau a geir yn erthygl 1.1 o Reoliad y Comisiwn (EC) (Rhif 1248/2001).

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gan eu bod wedi cael cyfle i edrych ar ddrafft cynnar o'r rheoliadau hyn, llwyddodd cynghorwyr cyfreithiol y Pwyllgor i nodi nifer o bwyntiau ac mae rhai ohonynt wedi cael eu cywiro. Fodd bynnag, erys rhai pwyntiau.

Ystyrir bydd angen codi'r pwyntiau canlynol gyda'r Gweinidog priodol o dan RS 11.4.

**Rheoliad 2(3)**

Gofynnir paham y mae'r geiriau "y maent i'w gweld ynddo" wedi'u cynnwys o dderbyn y ffaith mai dod ond un "Rheoliad y Comisiwn", fel y'i diffinnir, sydd o dan sylw.

**Rheoliad 2(4)(c)**

Gofynnir paham y mae'r geiriad a amnewidiwyd yn mynnu bod yn rhaid hysbysu o fewn 24 awr wedi marwolaeth neu archwiliad. O ystyried mai dim ond i anifail sydd wedi marw y mae'r diffiniad o "anifail buchol hysbysadwy" yn berthnasol, bydd archwiliad ond yn cael ei wneud o anifail sydd wedi marw. Ymddengys felly y dylid ond mynnu bod rhaid hysbysu o fewn 24 awr wedi archwiliad / ymchwiliad.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Rheoliad 3(1)**

Byddai wedi bod o gymorth i'r sawl sy'n darllen y rheoliadau pe bai'r rheoliad lle ceir y ddiffiniad wedi'i nodi e.e. –

> "diwygir Rheoliadau Adnabod Gwartheg 1998 drwy roi'r diffiniad canlynol yn lle diffiniad "notifiable bovine animal" ym mharagraff (1) o reoliad 2 (Dehongli)–".

**Rheoliad 3(2)**

Eto, byddai wedi bod o gymorth i'r sawl sy'n darllen y rheoliadau pe bai'r rheoliad lle ceir y diffiniad wedi'i nodi e.e. –

> "diwygir Rheoliadau Gwartheg (Adanbod Anifeiliaid Hŷn) (Cymru) 2000 drwy roi'r diffiniad canlynol yn lle diffiniad "anifail buchol hysbysadwy" yn rheoliad 2 (Dehongli)–".

**Pennawd**

Mae'r pennawd, fel y'i argraffwyd ar frig tudalen 3, yn cyfeirio at y flwyddyn 2002 yn hytrach na'r flwyddyn 2001.

Cynghorydd Cyfreithiol
Y Pwyllgor Deddfau

Cyf: LAD 01-01-428

17 Ionawr 2002